

Dysgwyr uchelgeisiol sy'n gyfranwyr mentrus creadigol, yn unigolion iach, hyderus ac yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus.

Mathemateg a Rhifedd

- Yn y gwersi Mathemateg, byddwn yn edrych ar ddata, amser, ffracsiynau a tymheredd.
- Byddwn yn cymhwyso'r sgiliau hyn drwy ein thema cyffrous, 'Mamma Mia' gan ddod o hyd i gyfartaledd tymheredd yng Ngwlad yr Iâ a darllen amserlenni trefn i gyrraedd gwahanol wledydd yn Ewrop.
- Caiff y disgyblion gyfle i ddod o hyd i faint o bobl sydd yn ymweld âg atyniadau enwog Ewrop gan wneud gwaith ar ffracsiynau yn deillio o hyn.

Iaith a Llythrennedd

- Byddwn yn dechrau'r thema drwy ddysgu am y Ffindir a Gwlad yr Iâ ac yn ysgrifennu llythyr adref ar ôl diwrnod yn y 'Saunas' chwilboeth!
- Caiff y disgyblion gyfle i ysgrifennu adolygiad gwael ar Trip Advisor yn dilyn ymweliad i Ffrainc a chreu ffeil ffeithiau am y wlad arbennig hon.
- Byddwn yn ysgrifennu disgrifiad o'r Eidal ac yn ymchwilio i'r holl atyniadau godidog.
- Bydd y disgyblion yn ysgrifennu cerdyn post ac yn disgrifio'r hyn maent wedi bod yn ei wneud wrth deithio Ewrop!
- Byddwn yn teithio i'r Swistir gan ysgrifennu ebost am ein taith!

Dyniaethau

- Bydd y disgyblion yn adnabod a chreu baneri gwahanol wledydd Ewrop.
- Bydd cyfle i ddefnyddio atlas i leoli gwledydd ar fap o'r byd.
- Caiff y disgyblion gyfle i ddysgu am draddodiadau gwahanol wledydd a chreu cyflwyniad am fwydydd anhygoel yr Eidal.

Gwybodaeth i Rieni

Bl 3 a 4

Haf 2021

Mamma Mia!



Ysgol Bro Gwydir



@Ysgolbrogwydir

Gwybodaeth Bwysig

Anfonwch eich plentyn i'r Ysgol yn brydlon gan anelu at bresenoldeb o 100%.
Darllenwch gyda'ch plentyn bob dydd gan arwyddo'r Cofnod Darllen.
Os dymunwch drafod unrhyw fater, cysylltwch â'r Ysgol ar 01492 640342.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Bydd y disgyblion yn dysgu am dechnoleg trydanol a thechnoleg sy'n defnyddio batri.
- Byddwn yn dysgu am ddiogelwch wrth ddefnyddio trydan adref ac yn adnabod unrhyw beryglon.
- Caiff y disgyblion gyfle i greu cylchedau eu hunain ac arbrofi gysa seinyddion a dargludyddion.
- Tybed pa ddeunyddiau sydd yn dargludo trydan? Cawn arbrofi gyda hyn a dod i gasgliad.
- Bydd y disgyblion yn arbrofi gydag Adobe Spark i greu pamffled yn atynnu pobl i Wlad yr Iâ.

Celfyddydau Mynegiannol

- Caiff y disgyblion gyfle i ddysgu Ffrangeg drwy ddawns a chân.
- Byddwn yn arbrofi gyda lliwiau er mwyn creu golygfa y 'Northern Lights' ac yn dysgu ac yn efelychu gwaith yr artist enwog, Monet.

Iechyd a Lles

- During this half term, there will be a Feel Good Friday session on 8/1/21.
- Exercise lessons take place twice a week and circle time sessions will be a great opportunity to discuss and share.
- In the first week we will share our hopes and wishes for 2021 and reflect on 2020.